BBC Audience Council for Wales
Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC

CYFRINACHOL **CADARNHAWYD**

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD YN CANOLFAN DDARLLEDU'R BBC, LLANDAF, CAERDYDD DDYDD GWENER 6 CHWEFROR 2009

Yn Bresennol:

Aelodau'r Cyngor Cynulleidfa

Janet Lewis Jones (Cadeirydd ac Ymddiriedolwr Cenedlaethol i Gymru)
Roy Grant
Jane James
Teresa Rees
Alex McMillan
Nicola Branson
Arun Midha
Dafydd Whittall

Staff BBC Cymru Wales:

Menna Richards, Rheolydd BBC Cymru Wales
Keith Jones, Pennaeth Rhaglenni, Cymraeg a Chyfryngau Newydd
Cath Allen, Pennaeth Datblygu Darlledu
Rhodri Talfan Davies, Pennaeth Marchnata, Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd,
Mark O'Callaghan, Pennaeth Newyddion a Materion Cyfoes

Staff BBC:

Tim Davie, Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth y BBC (ar gyfer eitem 16)

Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru, Ymddiriedolaeth y BBC, staff.

Karl Davies, Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Siôn Brynach, Cynghorwr Atebolrwydd, Cymru
Clair Baguley, Cynorthwyydd Adrannol, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru
Jared Walters, Cynorthwyydd Tîm, Llywodraethu ac Atebolrwydd Cymru.

10. YMDDIHEURIADAU A CHYHOEDDIADAU

Dennis Gethin,
Andrew Carter,
Carl Cooper,
Sangeet Bhullar,
Clare Hudson, Pennaeth Rhaglenni, Saesneg, BBC Cymru Wales.

11. BUSNES YR YMDDIRIEDOLAETH (YN BREIFAT)

Bu'r Ymddiriedolwr Cenedlaethol yn trafod cyhoeddi diweddar Ail Gyfnod adroddiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus OFCOM ac adroddiad *Digital Britain* Arglwydd Carter. Dywedodd ei bod yn debyg ar hyn o bryd fod y Llywodraeth a rheolyddion yn edrych at y BBC am atebion i ystod eang o broblemau.

Dywedodd wrth y Cyngor fod y BBC yn wirioneddol agored yn ei drafodaethau â Channel 4 am bartneriaeth bosibl rhwng BBC World Wide a Channel 4 er nad oedd pethau'n arbennig o hawdd i BBC Worldwide ar hyn o bryd.

Dywedodd wrth y Cyngor hefyd fod cynnwys am y gwrthdaro rhwng Israel a Phalesteina yn anodd i'r BBC, gan fod diogelwch y staff ar y ddaear yn peri gofid mawr.

Roedd cynnwys am seremoni agoriadol Arlywyddol yr UDA wedi denu cynulleidfaoedd mawr.

Bu lansio gwasanaeth BBC Farsi yn llwyddiant gyda nifer fawr yn manteisio arno ymhlith Iraniaid.

Roedd y Comisiwn Cystadleuaeth wedi oedi Project Kangaroo ac roedd hwn yn cael ei ystyried bellach o'r newydd er bod y dirwedd ddarlledu'n prysur newid.

Dywedodd y Pennaeth Llywodraethu ac Atebolrwydd (Plac) wrth y Cyngor fod prosiect yr Ymddiriedolaeth, Gwneud y Mwyaf o Effeithiolrwydd y Cyngor Cynulleidfa, wedi nodi cysondeb ar gyfer Adolygiadau Blynyddol y Cynghorau ymhlith ei blaenoriaethau. Yn ddiweddar, cylchredodd Dirprwy Gyfarwyddwr Uned yr Ymddiriedolaeth nodyn yn annog arddull fwy cyson ac yn awgrymu cynhyrchu taflen lai, fwy cyffredinol a dargedir at y cyhoedd cyffredinol ochr yn ochr â'r Adolygiadau a anelir at y rheini sy'n ffurfio barn. Roedd eglurhad yn cael ei geisio am y pwyntiau hyn ac roedd strwythur yr Adolygiad Blynyddol yn debygol o fod yn debyg i Adolygiadau Blynyddol y gorffennol.

Dywedodd Plac hefyd wrth y Cyngor fod strategaeth ffilm y BBC yn un maes a oedd yn cael ei adolygu yn ddiweddarach eleni lle byddai cyfraniad y Cyngor yn cael ei groesawu.

Tynnwyd sylw'r Cyngor i'r adroddiad a anfonwyd ar ran y Cyngor ar ôl y gwaith a wnaeth i werthuso gwelliannau ar ôl yr Adolygiad Diddueddrwydd y llynedd o Sylw Newyddion y Rhwydwaith i genhedloedd a rhanbarthau'r DU a byddai hwn bellach yn cael ei ystyried gan Bwyllgor Safonau Golygyddol yr Ymddiriedolaeth.

Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor am yr amserlen ddrafft ar gyfer ei Ddiwrnod Cwrdd i Ffwrdd wedi'i drefnu ar gyfer 2 Ebrill. Byddai hwn yn dechrau am 1pm ac yn cynnwys sesiynau gyda Dirprwy Cyfarwyddwr Uned yr Ymddiriedolaeth a Rheolydd Cymru.

Dywedodd PLlAC hefyd wrth y Cyngor fod gwaith wedi dechrau i gynllunio gwaith allgymorth y Cyngor ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan ystyried cynllun gwaith yr Ymddiriedolaeth a blaenoriaethau'r Cyngor a fabwysiadwyd gan yr Ymddiriedolaeth, a byddai is-grŵp y Cyngor yn cyfarfod cyn hir gyda'r bwriad o ddod â chynigion gerbron y Cyngor llawn ym mis Mawrth. Dywedodd hefyd wrth y Cyngor fod Cynllun Gwaith yr Ymddiriedolaeth bellach yn agored i ymgynghoriad ac y byddai ymateb drafft gan y Cyngor yn cael ei gylchredeg i'r Cyngor ei ystyried yn ystod y diwrnodau nesaf.

Roedd dwy gynhadledd ar y gweill gan y Cyngor Cynulleidfa ar gyfer 2009 a byddent yn cael eu cynnal ym mis Mehefin a mis Hydref. Byddai'r rhain yn ystyried Safonau a Dderbynnir yn Gyffredinol a Phortreadu.

Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol wrth y Cyngor fod ei ymateb i Gasgliadau Dros Dro y Prawf Gwerth Cyhoeddus Fideo Lleol wedi'i nodi'n ofalus ac y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y mater hwn eto yn ei chyfarfod nesaf.

Pwysleisiodd yr aelodau hynny o'r Cyngor a oedd wedi cynrychioli'r Cyngor yn Niwrnod Cyngor Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth y bu'n ddigwyddiad a gynlluniwyd yn dda. Roedd yn

ymddangos bod problemau gwasanaeth DAB ac FM wedi'u deall a bod pryderon y Cyngor ynghylch y 'bwlch diben' mewn gwasanaeth lleol hefyd wedi'u deall yn dda. Soniwyd yn fras am bortreadu'r DU gyfan mewn gwasanaethau Rhwydwaith, ac roedd yn bwysig fod hyn yn cael ei ddeall mewn modd soffistigedig yn hytrach na dibynnu ar ystrydebau hen-ffasiwn wrth fynd i'r afael â materion portreadu. Ar y mater hwn, cyfleodd y Cyngor ei ganfyddiad fod ysgrifenwyr yn aml yn gwneud cynigion y byddent yn disgwyl iddynt gael eu comisiynu efallai ac felly bod y cyfrifoldeb ar ysgwyddau'r comisiynwyr yn ogystal ag ysgrifenwyr i wella portreadu.

Ymunodd rheolwyr â'r cyfarfod.

12. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL A MATERION A GODODD

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod llawn a chywir o'r cyfarfod blaenorol.

Dywedodd PLlAC wrth y Cyngor fod yr awgrym a wnaeth ynghylch yr Adroddiad Mewnwelediad Cynulleidfa Chwarterol (AMCCh) wedi'i dderbyn ac y byddai'n cael ei ymgorffori mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Bu'r Cyngor yn holi Rheolydd Cymru am gynigion am wasanaeth newyddion mwy lleol. Dywedodd wrth y Cyngor fod cynigion sylweddol wedi'u datblygu gan BBC Cymru Wales ac y byddai Gweithredwr y BBC eu cyflwyno i Ymddiriedolaeth y BBC maes o law. Dywedodd yr Ymddiriedolwr Cenedlaethol wrth y Cyngor hefyd y rhoddwyd y cyfle iddi fynychu pwyllgor yr Ymddiriedolaeth (nad yw'n aelod ohoni) a oedd wedi ystyried y cyflwyniadau i'r ymgynghoriad Fideo Lleol i sicrhau bod cryfder teimlad Cyngor Cynulleidfa Cymru yn cael ei werthfawrogi. Byddai'r pwyllgor hwn yn adrodd i'r Ymddiriedolaeth lawn yn ei gyfarfod ym mis Chwefror.

13. ADRODDIADAU

Ymddiriedolwr Cenedlaethol

Dywedodd fod sawl adroddiad Llywodraeth a rheoleiddiol diweddar wedi cyfleu disgwyliadau pellach o'r BBC o ran mynd i'r afael â phroblemau mewn meysydd fel DAB, band eang, a dyfodol Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus.

Soniodd hefyd am apêl y Pwyllgor Argyfyngau (DEC) a phenderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol i beidio â'i darlledu ar sianeli'r BBC. Dywedodd y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ystyried y cwynion a gafwyd am y penderfyniad hwn cyn bo hir.

Dywedodd Rheolydd Cymru fod nifer sylweddol o gwynion hefyd wedi'u cael yng Nghymru ynghylch penderfyniad y Cyfarwyddwr Cyffredinol i beidio â darlledu apêl DEC; ymhlith pethau eraill, holwyd a allai BBC Cymru benderfynu'n unochrog darlledu'r apêl. Dywedodd Rheolydd Cymru fod hwn yn fater i'r BBC cyfan ac nid rhywbeth y gallai BBC Cymru Wales benderfynu yn ei gylch.

Nododd aelodau'r Cyngor mai prin y bu'r BBC yn destun cymaint o archwiliad – gydag achosion fel y rheini yn ymwneud â Ross/Brand, Carol Thatcher ac apêl DEC oll yn ychwanegu at deimladau negyddol rhannau o'r cyhoedd tuag at y BBC. Dywedodd y BBC fod hyn yn berygl mwyfwy sylweddol a rhywbeth i'w ddifaru'n fawr.

Rheolydd Cymru

Dywedodd wrth y Cyngor y bu digwyddiadau agoriadol Neuadd Hoddinott yn llwyddiant ysgubol. Bu ymateb y Gerddorfa a'r gynulleidfa yn gadarnhaol iawn. Talodd y Cyngor deyrnged i reolwyr BBC Cymru a oedd wedi ysgogi'r prosiect hwn i gael ei gwblhau er

gwaethaf anawsterau sylweddol. Dywedodd Rheolydd Cymru mai un datblygiad cadarnhaol oedd y cydweithio a oedd eisoes yn dwyn ffrwyth â chwmnïau eraill sy'n preswylio yng Nghanolfan Mileniwm Cymru fel y cwmni dawns Diversions.

Dywedodd wrth y Cyngor iddi roi tystiolaeth yn ddiweddar i Bwyllgor Diwylliant y Cynulliad Cenedlaethol.

Adroddiad Bwrdd
Dywedodd y Pennaeth Datblygu Darlledu wrth y Cyngor fod ffigurau RAJAR wedi cyrraedd yn ddiweddar ac yn dangos bod ffigurau gwrando Radio Wales yn gwella. Roedd Ruth Jones wedi rhoi hwb sylweddol i'r ffigurau hyn fel yr oedd sioe prynhawn Roy Noble.

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg wrth y Cyngor fod y ffigurau'n dangos bod ffigurau cynulleidfa Radio Cymru hefyd wedi gwella yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd rhai rhaglenni wedi dangos cynnydd y naill flwyddyn ar ôl y llall e.e. rhaglen fore Sul Dewi Llwyd a *Camp Lawn*.

Holodd y Cyngor a gafwyd ymateb i'r stori am fwlio yn *Pobol y Cwm*? Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg fod llawer o bobl ifanc wedi ymateb yn gadarnhaol iawn i'r stori hon ond y cafwyd cwynion hefyd, gyda rhai'n credu bod y stori'n rhy anodd. Holodd y Cyngor hefyd a oedd ffigurau'n hysbys ynghylch defnyddio rhyngwyneb Cymraeg yr iPlayer. Dywedodd y rheolwyr nad oedd hyn yn hysbys.

Bu *Hospital 24* yn llwyddiant mawr ar y teledu ac roedd wedi denu cynulleidfaoedd uchel, a oedd wedi gwobrwyo'r penderfyniad amserlennu mentrus.

Bu'r Cyngor yn canmol y darllediadau hyrwyddo diweddar ynghylch y twrnamaint Rygbi'r Chwe Gwlad a oedd ar ddod.

14. CYFLWYNIAD AR BERFFORMIAD Y BBC YNG NGHYMRU 2008/09

Dywedodd Rheolydd Cymru y byddai ei hadroddiad yn mynd i'r afael â'r ffyrdd yr oedd y BBC yng Nghymru wedi bodloni Dibenion Cyhoeddus y BBC.

Gan ddechrau gyda *Chynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil* dywedodd fod Newyddion a Materion Cyfoes yn allweddol yn y cylch hwn. Roedd gan *Wales Today* gynulleidfa gyfartalog o 250,000 yn rhoi cyfran o 27% - perfformiad yn gyfwerth â darllediadau newyddion eraill am 6.30pm ledled y DU. Yn ystod 2008, roedd 550,000 o bobl (20%) wedi gwylio *Wales Today* bob wythnos. Roedd sgôr gwerthfawrogiad y gynulleidfa am y rhaglen yn 81, bwynt o flaen cyfartaledd y DU.

Roedd *Newyddion* yn dal i fod yn un o gonglfeini amserlen diwrnodau gwaith S4C ac roedd bellach yn denu bron dwywaith cynifer o wylwyr ag ydoedd 6 blynedd yn ôl, gyda 35,000 o wylwyr ar gyfartaledd.

Roedd rhaglenni teledu Materion Cyfoes hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at ddealltwriaeth gwylwyr am faterion allweddol y dydd gyda phynciau a gafodd sylw yn 2008 yn cynnwys glendid ysbytai a heintiau ysbyty sy'n gwrthsefyll cyffuriau, cofnod diogelwch gyrwyr tryciau tramor, TB mewn gwartheg a safonau glendid lladd-dai.

Gan droi at *Hyrwyddo Addysg a Dysgu*, dywedodd Rheolydd Cymru fod BBC Cymru Wales yn parhau i hyrwyddo'r Diben hwn drwy ddarpariaethau dysgu ffurfiol fel *Bobinogi, Campyfan* a *TGAU bitesize*, ond hefyd drwy ddysgu drwy adloniant gyda rhaglenni fel *Mosgito*. Roedd

Mastermind Plant Cymru hefyd yn cyfrannu at y diben hwn, yn ogystal ag arddangos y ffordd y gellid estyn brand BBC yn gadarnhaol.

Bu *Coal House at War* hefyd yn addysgiadol yn ogystal â difyrrus. Roedd y gyfres wedi denu cynulleidfaoedd o 230,000 a Mynegai Gwerthfawrogiad o 87 gan ei fod yn apelio'n arbennig at y grŵp oedran allweddol ond gwamal 25-44.

Bu *Not in My Nature* yn rhaglen aml-lwyfan uchelgeisiol arall a oedd wedi apelio at y grŵp oedran 25-44 yn ogystal â chyfrannu at hyrwyddo addysg a dysgu.

Gan gyfeirio at Ddiben *Symbylu Creadigrwydd a Rhagoriaeth Ddiwylliannol* dywedodd fod popeth a wneir gan BBC Cymru wedi cyfrannu at y Diben hwn ond ymhlith yr uchafbwyntiau oedd rhaglenni rygbi y BBC. Roedd *Scrum V Six Nations* bob nos Sul yn llwyddiannus iawn, ac wedi cyflenwi'r rhaglen *Scrum V live* wythnosol bob nos Wener a oedd yn denu cynulleidfaoedd mawr yn rheolaidd.

Gan gyfeirio at ddrama gomedi, dywedodd fod *High Hopes* yn parhau i apelio, ei bod bellach yn cyflawni cynulleidfa dda iawn ac yn ennill Mynegai Gwerthfawrogiad hynod uchel o 90 am ei chyfres olaf. Roedd *Coming Home* wedi dilyn nifer o bobl yn darganfod eu gwreiddiau ac roedd *Welsh Greats* wedi cynnwys enwogion cyfoes o Gymru yn archwilio bywydau ffigyrau allweddol yn eu maes rhagoriaeth arbennig.

Roedd darlunio saith diwrnod ym mywyd ysbyty mwyaf Cymru, Ysbyty Prifysgol Cymru yng Nghaerdydd, yn *Hospital 24/7* yn boblogaidd ac wedi ymddangos yn y slot 10:35pm bob nos am wythnos yn ystod mis Ionawr 2009, yn ennill cyfran o 25%.

Roedd llwyddiannau'r rhwydwaith hefyd wedi dibynnu'n helaeth ar ragoriaeth leol gan gynnwys *Doctor Who, The One Show, Amazon, Torchwood* a *Young Musician of the Year*.

Roedd teithiau stiwdio *Doctor Who* yn ystod hydref 2008 wedi codi degau o filoedd o bunnoedd i elusen Plant mewn Angen ac wedi rhoi cyfle i gannoedd o enillwyr lwcus ymweld â set *Doctor Who*.

Ionawr 2009 oedd yr adeg yr agorodd Neuadd Hoddinott y BBC sy'n addo bod yn ffynhonnell helaeth o ragoriaeth ddiwylliannol yn y dyfodol.

Gan gyfeirio at Ddiben *Cynrychioli'r DU, ei Chenhedloedd, ei Rhanbarthau a'i Chymunedau*, dywedodd Rheolydd Cymru fod sawl cyfres yn y Rhwydwaith bellach yn cynrychioli Cymru i ryw raddau gan gynnwys *Torchwood, The One Show,* a *Coast*.

Darparodd BBC Cymru Wales amrywiaeth o gyfresi cenedlaethol i Gymru ac i ardaloedd yng Nghymru, gan gyflenwi ac ychwanegu at ddarpariaeth y Rhwydwaith ar draws y tri phrif lwyfan.

Roedd adroddiad Adolygiad Diduedddrwydd Ymddiriedolaeth y BBC am Adrodd y Cenhedloedd a'r Rhanbarthau (King) wedi amlygu diffygion yng nghynnwys Newyddion y Rhwydwaith o'r Cenhedloedd. Ers hynny bu cydweithio llawer agosach rhwng timau newyddion Cymru a'r DU gan rychwantu casglu newyddion a chyfraniadau gan ohebwyr arbenigol.

Roedd canfyddiadau am BBC Cymru yn ddarlledwr cenedlaethol Cymru wedi cynyddu'n raddol o 33% wyth mlynedd yn ôl i'r lefel gyfredol o 62%.

Dywedodd y cymeradwyir y BBC yn fwy yng Nghymru nag yn Lloegr ac yn llawer uwch na'r Alban a GI.

Gan droi at Ddiben *Dod â'r DU i'r Byd a'r Byd i'r DU* dywedodd wrth y Cyngor y gwerthwyd *Doctor Who* a *Torchwood* i ryw 40 o wledydd, gan godi proffil Cymru ledled y byd.

Roedd etholiad arlywyddol yr UDA hefyd wedi cael sylw sylweddol ar draws pob canolfan newyddion. Roedd *America 08: Dewi Llwyd ar Daith* wedi darparu hanes personal a chofiadwy o farnau Americanwyr sy'n siarad Cymraeg ledled yr UDA o California i Maine wrth nesáu at yr etholiad ym mis Tachwedd 2008.

Roedd gwasanaethau ar-lein y BBC yn parhau i ddarparu newyddion o Gymru yn fyd-eang gyda nifer sylweddol o ddefnyddwyr tramor.

Gan fynd i'r afael â'r olaf o Ddibenion y BBC, dywedodd yr aethpwyd i'r afael hefyd â *Chyflwyno i'r Cyhoedd Fudd Technolegau a Gwasanaethau Cyfathrebu sy'n Dod i'r Amlwg* gyda 89% o bobl yng Nghymru bellach â theledu digidol – y lefel uchaf o blith pedwar cenedl y DU. Roedd gan Gymru bellach ei chategori ei hun ar ryngwyneb iPlayer y BBC, gan sicrhau y gellir cael at y rhan fwyaf o gynnyrch wedi'i glirio y BBC a ddarlledwyd yn wreiddiol ar BBC TV, S4C, Radio Wales neu Radio Cymru. Roedd llawer o gynnyrch teledu Cymraeg BBC Cymru Wales ar gael hefyd ar Wasanaeth *Clic* S4C.

Fodd bynnag, dywedodd Rheolydd Cymru fod rhai problemau sylweddol yn parhau yng nghyd-destun technolegau cyfathrebu yng Nghymru. Dywedodd fod gwasanaeth DAB o gynnyrch radio BBC Cymru Wales yn parhau'n dameidiog yn llawer o'r Gogledd a'r Canolbarth.

Diolchodd y Cyngor i'r Rheolydd a holodd pa faes yr oedd yn ei ystyried y mwyaf heriol o hyd? Dywedodd y Rheolydd mai mater portreadu oedd yr her fwyaf sy'n wynebu Cymru o hyd. Dywedodd y byddai'n fater allweddol yn y flwyddyn i ddod – i weithio gyda chydweithwyr yn y Rhwydwaith i sicrhau gwell portread o Gymru yng nghynnyrch y Rhwydwaith Teledu a Radio.

Ymatebodd y Cyngor drwy ddweud bod hwn yn fater a godwyd â chryn rym yn Niwrnod Cyngor Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth ac ailadroddodd fod angen cydweithredu i sicrhau yr osgoir y perygl y byddai ysgrifenwyr yn ysgrifennu gyda'r bwriad o gael eu comisiynu. Ymatebodd Rheolydd Cymru drwy ddweud bod ei phrofiad hi o ysgrifenwyr yn awgrymu eu bod yn ysgrifennu am yr hyn roedd arnynt eisiau ysgrifennu amdano yn hytrach na chael eu rhwystro gan ragdybiaethau Comisiynwyr Rhwydwaith. Fodd bynnag, atgoffodd y Cyngor fod gan Gomisiynwyr Rhwydwaith dargedau sylweddol y mae'n rhaid iddo eu bodloni. Roedd yn bwysig cydweithio a magu perthnasoedd deallgar â chomisiynwyr.

Holodd y Cyngor a oedd cyfleoedd ychwanegol - gan fod Neuadd Hoddinott wedi agor a Chymru'n parhau i fod yn ganolfan rhagoriaeth gerddorol y BBC - i BBC Cymru Wales ddarparu mwy o gynnyrch cerddoriaeth i'r Rhwydwaith? Dywedodd Rheolydd Cymru fod cyfleoedd o'r math hwnnw yn cael eu harchwilio ar hyn o bryd.

Holodd y Cyngor a ellid defnyddio'r ffilm hyrwyddo a welodd yn rhan o gyflwyniad y Rheolydd yn fwy helaeth i wneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol o amrywiaeth y cynnyrch ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir gan BBC Cymru Wales? Dywedodd Rheolydd Cymru ei bod yn cytuno y dylid ceisio cyfleoedd i gyflwyno'r amrywiaeth o wasanaethau'n ehangach.

Dywedodd y Pennaeth Marchnata Cyfathrebu a Chynulleidfaoedd hefyd y byddai hyn yn ffocws ar gyfer y flwyddyn i ddod. Ailadroddodd y Cyngor ei ganfyddiad fod perygl y cymerir yn rhy ganiataol fod cynulleidfaoedd yn ymwybodol o amrywiaeth ac ansawdd y ddarpariaeth gan y BBC yng Nghymru.

Dywedodd y Cyngor fod ganddo gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r hyn sy'n cael ei ddarparu gan y BBC a chytunodd y dylid ceisio cyfleoedd yn y dyfodol yn ei ddigwyddiadau allgymorth ei hun i wneud cynulleidfaoedd yn ymwybodol o'r hyn sydd gan y BBC i'w gynnig.

Bu'r Cyngor yn canmol y cynnyrch Materion Cyfoes effeithiol iawn a fu'n bwysig dros ben i'r aelodau hynny o'r gynulleidfa nad oeddent yn gyfoethog neu a oedd yn sâl. Yn arbennig amlygodd y Cyngor y rhaglenni *Week in Week Out* am lendid ysbytai a safonau mewn lladd-dai. Dywedodd y Cyngor fod hyder llawer o wylwyr wedi cael hwb i herio safonau cyfredol a disgwyl rhai uwch.

15. CYFLWYNIAD AR GYNLLUN RHAGLENNU'R BBC AR GYFER S4C 2009-10 AC ADRODDIAD TERFYNOL AM BERFFORMIAD RHAGLENNU'R BBC AR S4C 2008

Dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg wrth y Cyngor mai amcanion y cynllun rhaglenni yw arddangos ymrwymiad y BBC i deledu iaith Gymraeg a chefnogaeth i S4C, magu cymeradwyaeth y gynulleidfa i gyfraniad rhaglenni'r BBC at S4C, cryfhau'r cwlwm â chynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau iaith Gymraeg y BBC ac yn olaf darparu rhaglenni sy'n arbennig yn amserlen S4C gan ddweud ei bod yn bwysig iawn i'r rhaglenni a gyflenwir gan y BBC i S4C fod yn amlwg yn ddarpariaeth o ansawdd.

Y strategaeth olygyddol oedd blaenoriaethu genres sy'n gwasanaethu Dibenion Cyhoeddus y BBC a manteisio ar gryfderau cynhyrchu sefydledig yn BBC Cymru Wales, contractau a chomisiynau Rhwydwaith BBC (fel hwnnw ar gyfer Twrnameint Rygbi'r Chwe Gwlad) ac arloesi technolegol.

Wrth fynd i'r afael â Dibenion Cyhoeddus y BBC a *Chynnal Dinasyddiaeth a Chymdeithas Sifil* yn arbennig cyfeiriodd at Newyddion a Materion Cyfoes. Roedd y ddarpariaeth Newyddion yn bodloni Diben Cyhoeddus craidd, yn ddiduedd, teg a chywir ac yn mynd i'r afael ag agenda eang – Cymru, y DU a'r byd. Roedd rhaglenni Newyddion a Materion Cyfoes yn cynnwys *Newyddion, Yr Wythnos, CF99, Pawb a'i Farn* a *Taro 9*.

Gan droi at *Hyrwyddo Addysg a Dysgu* cyfeiriodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg at gynnyrch dysgu a ffeithiol gan sôn bod *Mosgito* – rhaglen gylchgrawn i blant 10-15 oed ochr yn ochr â'r rhaglen o fath *Newsround* , *Ffeil*, bellach wedi ennill cynulleidfa sylweddol. Roedd *O Flaen dy Lygaid* hefyd wedi datblygu i fod yn haen ddogfennol sefydledig, y cynhyrchwyd ynddi hefyd raglenni arbennig amserol a nodedig a oedd yn bodloni'r Diben hwn.

Gan gyfeirio at Ddiben *Symbylu creadigrwydd a Rhagoriaeth Ddiwylliannol* dywedodd fod hyn yn cwmpasu Drama, Adloniant, y Celfyddydau, Cerddoriaeth a Chwaraeon. *Pobol y Cwm* oedd rhaglen fwyaf poblogaidd S4C o hyd ac roedd Mastermind Cymru, a wnaed yn bosibl drwy fabwysiadu fformat rhaglen BBC, hefyd wedi profi'n boblogaidd iawn. Roedd hyn yn wir hefyd am raglenni digwyddiadau chwaraeon a diwylliannol pwysig lle gwnaethpwyd y mwyaf o hawliau Chwaraeon a gwerthoedd a sgiliau cynhyrchu mewnol.

Dywedodd wrth y Cyngor y byddai'r BBC yn ehangu ei ddarpariaeth newyddion i S4C yn sylweddol yn y dyfodol agos iawn, gan lansio gwasanaeth newyddion uwch ar S4C ar 5 Mai,

gyda 4 bwletin ychwanegol drwy gydol y dydd yn dechrau â bwletin newyddion ychwanegol am 13:30 ac yn dod i ben â bwletin am 22:30.

Gan droi at berthynas y BBC â S4C ers 1982, dywedodd y Pennaeth Rhaglenni Cymraeg fod y BBC wedi cyflenwi o leiaf 520 o oriau'r flwyddyn o raglenni i S4C (a elwir "y 10 awr" o ddarpariaeth bob wythnos). Yn 2009, byddai cost gyffredinol y ddarpariaeth hon tua £25m a byddai'n agos at 650 awr o raglenni gan y BBC ar S4C. Roedd dau fecanwaith yn ffurfio cyflenwad rhaglenni'r BBC i S4C, y naill yn statudol a'r llall yn gytundeb gwirfoddol rhwng Ymddiriedolaeth y BBC ac Awdurdod S4C (y Bartneriaeth Strategol). Roedd cytundeb y Bartneriaeth Strategol yn cydnabod cyfrifoldebau'r BBC a chyfrifoldebau S4C.

Dywedodd mai cyflenwad rhaglenni'r BBC i S4C yn 2009 mewn genres amrywiol fyddai:

	Oriau
Celfyddydau	62
Ffeithiol	7
Drama	96
Addysg a Dysgu	48
Cerddoriaeth	7
Newyddion a MC	354
Chwaraeon	104

Gwnaeth y Cyngor gymeradwyo rhaglen rhaglenni 2009-10 a pherfformiad rhaglenni'r BBC ar S4C yn ffurfiol yn ystod 2008.

Cyflwyniad S4C i Adolygiad Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus Ofcom
Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod S4C wedi awgrymu yn ei chyflwyniad i ymgynghoriad Adolygiad DGC Ofcom y gallai benodi darparwr newyddion i ddarparu newyddion Saesneg a Chymraeg (gan ddisodli gwasanaeth cyfredol BBC Cymru). Roeddent wedi gwrthod ymhelaethu ar eu cynnig na chyhoeddi eu cyflwyniad i'r Adolygiad. Yn ei adroddiad dywedodd Ofcom:
"…cynnig a gyflwynwyd gan S4C lle gallai'r sianel benodi darparwr newyddion ar gyfer ei newyddion Cymraeg (a ddarperir ar hyn o bryd gan y BBC) a newyddion Saesneg i Gymru ar ba bynnag sianel yw'r cludydd y cytunir arno."

Cadarnhaodd rheolwyr BBC Cymru Wales na fu unrhyw drafodaeth â'r BBC / Ymddiriedolaeth y BBC cyn i'r cynnig hwn ddod i'r amlwg. Pan ddaeth y mater hwn i dir y cyhoedd, roedd S4C wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg a ddywedodd:

"Mae'n bryd ystyried darpariaeth newydd Gymraeg ar S4C, er nad yw hyn yn adlewyrchiad o'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan BBC Wales ar gyfer S4C"

Mynegodd y Cyngor ei siom am y ffordd yr oedd y ddadl yn cael ei chynnal. Credai'r Cyngor fod hwn yn fater a allai effeithio'n ddifrifol ar fywyd cyfan Cymru. Mynegodd bryder na fyddai'r gynulleidfa ehangach efallai'n gwerthfawrogi ei bwysigrwydd enfawr, fel y gwnaeth y Cyngor o'i wybodaeth am y BBC ac am ei ddyletswyddau darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn Gymraeg a Saesneg yng Nghymru.

16. DATBLYGIADAU SAIN A CHERDDORIAETH Y BBC YNG NGHYD-DESTUN Y DDADL AM DDYFODOL Y BBC A DARLLEDU GWASANAETH CYHOEDDUS

Dywedodd y Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth wrth y Cyngor fod 56% o'r holl wrando ar radio yn cael ei wneud i orsafoedd radio BBC a 43% i orsafoedd radio masnachol. Roedd gorsafoedd radio'r BBC yn cyrraedd 65% o'r boblogaeth ac roedd 33.52 miliwn o bobl yn gwrando ar gynnyrch BBC Radio gyda 29.2 miliwn yn gwrando ar Rwydwaith Radio'r BBC. Roedd ansawdd rhaglenni radio'r BBC yn amlwg yn y sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad a gyflawnwyd gyda 97% o raglenni yn cyflawni sgôr uwchlaw 70. Rhoddwyd gwybod i'r Cyngor fod y BBC yn gwneud yn well na gorsafoedd radio masnachol ym mhob genre a fesurir am ansawdd. Roedd cyllidebau sain y BBC eu hunain yn eithriadol o fach ond dywedodd y Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth fod y sefyllfa economaidd i weithredwyr masnachol yn ymddangos yn llwm gyda refeniw hysbysebu yn prysur ddiflannu.

Dywedodd Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth y BBC mai'r her oedd bod mor greadigol â phosibl. Roedd uchelgais ac arbenigrwydd creadigol yn allweddol i lwyddo yn y dyfodol a gwnaed hyn yn amlwg mewn cynnyrch fel BBC Proms a ddenodd cynnydd o 1m yn ei gynulleidfa ar gyfer *The Last Night of the Proms*, gyda 12 miliwn o bobl yn gwylio neu'n gwrando ar ryw gynnyrch y Proms a 48 o gyngherddau wedi gwerthu eu holl docynnau.

Dywedodd mai nod arall oedd creu canolbwyntiau yn yr amserlenni, ac er enghraifft cyfeiriodd at *Big Bang Day* a oedd yn cyd-daro â throi'r Peiriant Gwrthdaro Hadron Mawr ymlaen yn sefydliad ymchwil gwyddonol CERN. Roedd amserlen lawn o raglenni wedi'i pharatoi ac wedi arwain hefyd at 1.7m o bobl yn ymweld â'r wefan berthnasol a 72,000 yn llwytho'r podlediad sain i lawr o bennod arbennig o'r ddrama *Torchwood*.

Un nod arall oedd symud y tu hwnt i radio 'adloniant' sylfaenol ac roedd y nod hwn yn cael ei gyrraedd drwy raglenni fel *Newsbeat* Radio 1 a oedd yn cyrraedd 9 miliwn. Roedd Radio 1 hefyd yn denu 0.9m o ddefnyddwyr unigryw wythnosol i'w wefan.

Gan edrych at y dyfodol, amlinellodd y Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth rai o'i flaenoriaethau i'r Cyngor, gan ddweud eu bod wedi'u rhannu'n dri maes eang - creadigrwydd, rhyngweithio a dosbarthu digidol. Gan ddechrau â chreadigrwydd, dywedodd fod cynlluniau cryf ac arloesol ar waith ar gyfer 2009 a'i fod yn rhoi pwyslais mawr ar gael effeithlonrwydd gwelliant parhaus wedi'i danysgrifennu'n gynnar yn y broses o osod cyllidebau. Dywedodd fod gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar feddwl am y tair blynedd nesaf, a bod gwaith strategaeth fawr arall hefyd wedi dechrau.

Ym maes rhyngweithio, dywedodd y Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth mai un flaenoriaeth iddo ef oedd cytuno ar gyllidebau terfynol ag Ymddiriedolaeth y BBC a chyflwyno gwefannau newydd a fyddai'n parhau'r treialon yng nghylch creu syndicadau a delweddu a gyflwynwyd eisoes. Dywedodd hefyd ei fod yn gobeithio cytuno ar y camau nesaf ar gyfer Datblygu cerddoriaeth.

Gan droi at ddosbarthu digidol, dywedodd y Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth wrth y Cyngor ei fod yn awyddus i gytuno ar y buddsoddiad sydd ei angen i wella gwasanaeth y ddarpariaeth DAB yn rhan o drafodaeth ehangach am Ddarlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, ond ei fod hefyd yn gobeithio gweithio gyda'r diwydiant darlledu yn ehangach ar ddatblygu agweddau gweledol ar y cynnyrch mewn meysydd fel datblygu Canllaw Rhaglenni Electronig i'r radio. Dywedodd wrth y Cyngor y gwnaed 8m o geisiadau bob mis am ddeunydd radio sydd bellach ar gael ar yr iPlayer.

Dywedodd y byddai arweinyddiaeth a phartneriaeth yn y diwydiant yn ddarn pwysig arall o waith i'r Isadran yn y dyfodol agos.

Gan droi ei sylw at Radio Rhwydwaith, dywedodd fod cyrhaeddiad a chyfran yn uwch yng Nghymru nag yn unrhyw un arall o genhedloedd y DU a bod rhyw 50 o wahanol raglenni'n cael eu cynhyrchu ar gyfer Radio Rhwydwaith yng Nghymru. Ymhlith y rhain, roedd gan *Composer of the Week* ar Radio 3 y sgôr Mynegai Gwerthfawrogiad uchaf o blith yr holl raglenni ar y radio yn y DU. Dywedodd y byddai 11 o ddramâu prynhawn Radio 4 yn dod o Gymru yn ystod 2008-09 gan gynnwys fersiwn drama radio o *Torchwood*.

Gofynnodd y Cyngor i'r Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth am gynlluniau i wella gwasanaeth DAB ac FM yng Nghymru. Cytunodd fod hyn yn peri gofid mawr. Dywedodd na fyddai'r BBC yn cytuno i unrhyw gynllun radio newid i ddigidol nad oedd yn gwella gwasanaeth DAB. Roedd cynlluniau i wella gwasanaeth amlblethau ledled y DU yn y dyfodol agos. Roedd trafodaethau wedi dechrau am bartneriaethau posibl a phosibilrwydd gwneud gorsafoedd radio Cymru ar gael ar amlbleth BBC y DU gyfan.

Gwnaeth y Cyngor y pwynt y dylid gwneud cynnydd cyn gynted â phosibl ar y mater hwn ac y byddai'n croesawu ymrwymiad i hyn cyn y newid i radio digidol. Ymatebodd y Cyfarwyddwr Sain a Cherddoriaeth mai'r anhawster oedd bod y gwariant cyfalaf sydd ei angen i fynd i'r afael â'r mater hwn yn sylweddol ac felly ni allai ymrwymo i hyn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd momentwm ar y mater hwn a sicrhaodd y Cyngor y gallai fod datblygiadau ar y mater hwn yn y dyfodol eithaf agos.

Mynegodd y Cyngor ei frwdfrydedd hefyd am syniad cyfan archif ar-lein / ar alwad / iPlayer a dywedodd ei fod yn ystyried bod hwn yn bwyslais calonogol iawn i'r dyfodol.

17. MATERION O FLAENORIAETH I YMDDIRIEDOLAETH Y BBC

1. Cynlluniau S4C ar gyfer y newyddion yng Nghymru. Trafododd Cyngor Cynulleidfa Cymru gynigion a adroddwyd ond nas cyhoeddwyd S4C am ganfod darparwr arall ar gyfer y gwasanaeth newyddion iaith Gymraeg a ddarperir ar hyn o bryd gan y BBC. Mae'r Cyngor yn poeni'n fawr am oblygiadau hyn – yn fwy nag unrhyw fater arall ers sefydlu'r Cyngor – ac mae'n erfyn ar yr Ymddiriedolaeth i weithredu'n gyflym a chlir.

18. CADARNHAU DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Atgoffwyd y Cyngor y byddai ei gyfarfod nesaf ar 6 Mawrth 2009 yng Nghanolfan Ddarlledu'r BBC, Caerdydd ac y byddai cinio preifat i'r Cyngor yn cael ei gynnal ar noson 5 Mawrth.